

PENNANT WALTERS

**Fferm Wynt Trecelyn**
Cylchlythyr Prosiect: Mawrth 2023

# Mae Pennant Walters yn datblygu cynigion ar gyfer fferm wynt ar safle sy’n cynnwys tri darn o dir i’r dwyrain o Drecelyn ac Abercarn

Mae`r cynigion ar gyfer cael 5 tyrbin wynt gydag uchder dangosol hyd at 145m i`r pen. Amcangyfrifir bydd y fferm wynt yn generadu i fyny at 20MW o drydan, sy`n gywerth â darparu digon o bŵer i gyfarfod anghenion trydan blynyddol 13,135 o gartrefi*.

*https://www.renewableuk.com/page/UKWEDExplained

**13,135**
**O GARTREFI**
wedi`u pweru gan y cais arfaethedig hwn

**CYFLEOEDD**
er Budd Cymunedol

**CYFLEOEDD AM SWYDDI**
adeiladu a chadwyn cyflenwi

## Ymgysylltu cynnar ymgynghoriad cyhoeddus

Ystyrir bod y prosiect hwn yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS), sy’n golygu y bydd angen i ni wneud cais i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW), a fydd yn gwneud argymhelliad i Weinidogion Cymru a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid rhoi caniatâd cynllunio ai peidio.

Fe hoffwn i chi gymryd rhan yng ngham cyntaf yr ymgynghoriad ar y cynlluniau arfaethedig cynnar. Rydym wedi trefnu nifer o sesiynau galw heibio cyhoeddus ac arddangosfa rithiol ar-lein er mwyn rhoi gwybodaeth i chi ynglŷn â’r argymhellion ac i gael eich adborth.

**Arddangosfeydd Cyhoeddus**
Dewch i ganfod mwy, a darparu eich adborth ar y cynigion cynnar:

**Neuadd Bentref Gymunedol Llanfach, Heol Twyn, Abercarn NP11 5LB**
Dydd Mercher 15 Mawrth
2pm – 7pm


**Memo Trecelyn, Stryd Fawr, Trecelyn NP11 4FH**
Dydd Iau 16 Mawrth
2pm – 7pm

## Cysylltu

Hoffem glywed eich barn ar y cynigion sy’n dod i’r amlwg ar gyfer Fferm Wynt Trecelyn.
Rhowch wybod i ni am eich meddyliau cychwynnol trwy lenwi ffurflen adborth ar lein neu yn ystod y digwyddiadau cyhoeddus:

**E-bost:** info@trecelyn-windfarm.co.uk
**Ffôn:** 0800 699 0081 (Ffôn am ddim)
**Post:** anfonwch at FREEPOST TC CONSULTATION
(dim angen cyfeiriad pellach na stamp)

Dysgu rhagor: **www.trecelyn-windfarm.co.uk**




## Y safle a chynigion cynnar

Mae'r safle wedi'i leoli ar draws tri darn o dir ar wahân yn Nhrecelyn (Trecelyn), a fydd yn gorwedd i'r dwyrain o Abercarn a Threcelyn, ac i'r gorllewin o Fynydd Maen. Mae'r safle yn gyfan gwbl o fewn ffin weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Mae`r datblygiad arfaethedig yn cynnwys:

- Hyd at pump tyrbin hyd at uchafswm uchder o 145m i'r pen (c.4-6MW fesul tyrbin)
- Trawsnewidyddion wedi'u lleoli naill ai o fewn neu'n gyfagos i'r tyrbinau
- Traciau mynediad ar y safle
- Adeilad is-orsaf ar y safle

Bydd gan y cynnig oes weithredol o 30 mlynedd.
Bydd y cysylltiad â'r grid o fewn un o'r parseli tir, sy'n golygu na fydd coridor cysylltu y tu allan i'r tri pharsel tir a nodir a ddangosir ar y cynllun tir. Bydd caniatâd i gysylltu â'r rhwydwaith trydan lleol yn ffurfio proses ar wahân, dan arweiniad y Grid Cenedlaethol.

## Casglu'r wybodaeth amgylcheddol angenrheidiol

Ar gyfer prosiectau ynni arfaethedig o`r math hwn, rhaid i`r ymgeisydd fel rheol ymgymryd ag Asesiad Effaith Amgylcheddol (EIA) Golyga hyn ymgymryd ag arolygon ac asesiadau ar yr amgylchedd lleol presennol, a sut all y cynigion newid neu ddylanwadu ar bethau fel cynefinoedd lleol, bioamrywiaeth, amwynder gweledol, risg llifogydd ac archeoleg, i enwi ond ychydig.

Byddwn yn casglu'r wybodaeth hon dros y misoedd nesaf a bydd y canfyddiadau'n chwarae rhan ganolog wrth helpu i ddylunio'r cynigion i sicrhau bod y prosiect yn rhoi ystyriaeth lawn i bob agwedd ar amgylchedd y safle.

## Buddion cymunedol

Ar wahân i`r lleihad carbon amlwg a`r buddion cynaliadwyedd ynni i Gymru, mae cyfle arwyddocaol i sicrhau buddion lleol eraill, o ganlyniad i`r prosiect hwn.

Fel cwmni lleol sy`n eiddo i Gymru, bydd y prosiect hwn yn "eiddo lleol", fodd bynnag rydym hefyd yn archwilio cyfleoedd **cydberchnogaeth leol a pherchnogaeth gymunedol** ymhellach. Mae Pennant Walters hefyd yn gweithredu cronfa gymunedol ar gyfer pob un o`r prosiectau ffermydd gwynt, sy`n buddsoddi arian mewn cymunedau lleol yn yr ardaloedd cyfagos. Hyd yn hyn, mae tua £4 miliwn wedi ei ddosbarthu ymhlith y mentrau cymwys yn Ne Cymru.

Rydym yn awyddus i glywed meddyliau lleol ar sut i reoli`r Gronfa Gymunedol, felly rhowch wybod am eich barn i ni.

## Amdanom ni

Ni yw datblygwr ynni adnewyddadwy cartref mwyaf Cymru. Mae Pennant Walters yn rhan o`r Walters Group sydd wedi ei leoli yn Hirwaun - cwmni lleol yn gweithredu`n genedlaethol, yn cyflogi hyd at 500 o bobl, llawer ohonynt yn Ne Cymru.

Ers 2003 mae Pennant Walters wedi datblygu, adeiladu a nawr yn gweithredu chwe fferm wynt a rhai datblygiadau solar yn Ne Cymru gan gynhyrchu cyfanswm o 127MW. Rydym yn ceisio datblygu perthynas hir-dymor gyda phob rhanddeiliad gan gynnwys **cymunedau, tirfeddianwyr, awdurdodau lleol a rheoleiddwyr**.

Mae gennym brofiad sylweddol o ddatblygu datblygiadau ynni adnewyddadwy yn hen feysydd glo De Cymru, felly mae gennym hanes cryf o gyflawni prosiectau tebyg i Fferm Wynt Trecelyn. Dysgu rhagor: **www.pennantwalters.co.uk**

